O Fab y Dyn, Eneiniog Duw

Caneuon Ffydd: Rhif 541

O Fab y Dyn, Eneiniog Duw, fy Mrawd
a'm Ceidwad cry',
ymlaen y cerddaist dan y groes a'r gwawd
heb neb o'th du;
cans llosgi wnaeth dy gariad pur bob cam,
ni allodd angau'i hun ddiffoddi'r fflam.

Cyrhaeddaist ddiben dy anturiaeth ddrud
drwy boenau mawr;
a gwelais di dan faich gofidiau'r byd
yn gwyro i lawr,
ac yn dy ochain dwys a'th ddrylliog lef
yn galw'r afradloniaid tua thref.

Rho imi'r weledigaeth fawr a'm try
o'm crwydro ffôl
i'th ddilyn hyd y llwybrau dyrys, du
heb syllu'n ôl;
a moes dy law i mi'r eiddilaf un,
ac arwain fi i mewn i'th fyd dy hun.

Tydi yw'r ffordd, a mwy na'r ffordd i mi,
tydi yw ngrym:
pa les ymdrechu, f'Arglwydd, hebot ti,
a minnau'n ddim?
O rymus Un, na wybu lwfwrhau,
dy nerth a'm ceidw innau heb lesgáu.

GEORGE REES, 1873–1950

MYFYRDOD

Wedi sylwi ar ddynesiad Iesu Grist ei hun, drwy'r teitlau a rydd George Rees ar Grist – Mab y Dyn, yr un oedd o dragwyddoldeb yn dod yn Eneiniog Duw, yn Grist i'n plith, yn rhannu yn ein gwendid a'i wneud yn Frawd, ond yn marw er mwyn ein cadw ninnau a'i wneud yn Geidwad cry' inni i gyd – chawn ni ddim aros yn llonydd yn hir. 'Ymlaen y cerddaist', meddai, ac arweinir ninnau at Galfaria. Yno 'Cyrhaeddaist ddiben dy anturiaeth ddrud', ac oddi yno mae'n galw arnom ninnau i'w ganlyn ac i ddilyn ei esiampl.

O ddyfynnu'r Salmydd sydd hefyd yn gofyn am arweiniad– 'Edrych a wyf ar ffordd a fydd yn loes i mi, ac arwain fi yn y ffordd dragwyddol' (Salm 139:24), fe welwn y gwyddai yntau, fel George Rees yma, na allwn ganfod y ffordd ar ein pennau ein hunain. Y mae'n rhaid i Dduw osod ein traed arni a'n harwain ar ei hyd.

Mae George Rees yn rhoi hanes cyfansoddi'r emyn hwn yn *Trysorfa'r Plant*, Chwefror 1938, ac yn sôn fel y cafodd ei hun yn myfyrio'n ddwys ar ôl pregeth yng nghapel Willesden Green gan yr Athro David Williams a fu'n athro diwinyddiaeth yng Ngholeg y Bala. Pwynt y bregeth oedd 'Esiampl Crist', a sylweddolodd George Rees 'Yn yr olwg ar odidowgrwydd y ffordd a gerddodd Ef, nad oedd gobaith i mi ei ddilyn byth. Teimlwn yn anesmwyth a digalon, a gofynnwn i mi fy hunan yn ddistaw, "Pa les ymdrechu?" Aeth yn dywyll iawn arnaf, ond ymhen ennyd, llewyrchodd goleuni geiriau Crist i'm meddwl – "Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim." Darfu'r ofn a'r dryswch, canys gwelwn holl ddigonolrwydd y Gwaredwr o'm tu. Euthum i fyfyrio'n ddwys, a ffrwyth y myfyrio hwnnw ydyw emyn 231' (fel y'i ceid yn hen lyfr y Methodistiaid).

Dyma, felly, brofiad George Rees, a wyddai na fedrai ddilyn yr esiampl hon yn ei nerth ei hun, a bod Iesu yn fwy nag esiampl, ac yn Waredwr ac yn Arglwydd inni hefyd. Sonia am Iesu fel y ffordd at y Tad, ond dywed hefyd fod Iesu yn ein helpu ar hyd y ffordd honno yn ogystal – 'a mwy na'r ffordd i mi, tydi yw 'ngrym'.

Fe gofiwch eiriau Iesu ei hun: 'Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi' (Ioan 14:6). A thystiolaeth yr apostolion i'r ffordd honno wedyn yn Actau: 'Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i'r ddynolryw, y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo' (Actau 4:12).

Nid yw'r ffordd, felly, o unrhyw lesâd inni oni ddown ni ar ei hyd hi. A ninnau'n gwybod bod bywyd i'w gael yn Iesu, ai ein hateb ni fel y Phariseaid mae Iesu o hyd: 'eto ni fynnwch ddod ataf fi i gael bywyd' (Ioan 5:40)?

GWEDDI

O rymus Un, na wybu lwfrhau, arwain ni ar hyd y ffordd sydd yn wirionedd ac yn fywyd ynot ti dy hun. Paid â gadael imi grwydro ar fy mhen fy hun, ond gosod fy nhraed yn sicr a goleua'r ffordd dragwyddol o'm blaen. Yn enw anghymarol dy Fab Iesu Grist. Amen.